# Dysgu ar-lein am ddim gyda'r Brifysgol Agored

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

ymddiriedolaeth gofalwyr Cymru
gweithredu · cynorthwyo · cynghori

OpenLearn Cymru



## Beth amdana i?

Cwrs datblygiad personol am ddim i ofalwyr yng Nghymru.

Wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru.

**www.open.ac.uk/wales/gofalwyr**

**Ffoniwch: 0300 303 5303**

Dysgu sy'n Newid Bywydau

Mae'r Brifysgol Agored wedi ei hymgorffori drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), yn elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Mae'r Brifysgol Agored yn cael ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.

# Beth amdana i?

## Cwrs pump awr ar-lein am ddim ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

Datblygwyd y cwrs byr hwn yn dilyn ein profiad o weithio a chefnogi gofalwyr gyda'u hastudiaethau.

Dyluniwyd ar gyfer gofalwyr o bob oed a gallu ac mae'n helpu gofalwyr i adnabod ac ystyried eu sgiliau a'u profiadau. Mae'r cwrs yn hyblyg dros ben – gellir ei astudio ar-lein gan ofalwyr unigol, neu mae modd defnyddio'r cynnwys mewn amgylchedd grŵp wyneb yn wyneb. Yn ogystal, bydd y Brifysgol Agored yng Nghymru yn cynnal cyfres o weithdai a digwyddiadau **Beth amdana i?** mewn canolfannau gofalwyr lleol. Rhagor o fanylion ynglŷn â'r gweithdai hyn i'w gweld yn **www.open.ac.uk/wales/gofalwyr**

Gall **Beth amdana i?** roi hwb i'ch hyder, dangos sut mae astudio â'r Brifysgol Agored yn gweithio ac yn cael ei ddefnyddio fel cam ymlaen at ddysgu pellach neu gyflogaeth. O bosib bydd dysgwyr yn mynd ymlaen at astudiaeth ffurfiol gyda'r Brifysgol Agored yn cynnwys cwrs Mynediad PA, astudiaeth ar gyfer israddedigion neu ôl-raddedigion.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y cwrs hwn, astudiaeth bellach â'r Brifysgol Agored a'n gwaith gyda gofalwyr leded Cymru ewch i **www.open.ac.uk/wales/gofalwyr**

E-bost:
**Wales-partnerships@open.ac.uk**

Ewch i:
**www.carers.org/wales**



I lawrlwytho'r daflen hon fel pdf, ewch i **www.open.ac.uk/wales/gofalwyr**